

## PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 2 TACHWEDD 2021

Yn Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Sattar, Derbyshire, Goddard, Hudson, Lancaster,  
Robson a/ac Wood

### 1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ashgar Ali a'r Cynghorydd Frank Jacobsen.

### 2 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

### 3 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd a gynhaliwyd ar 11 Mai 2021 a'r Is-bwyllgorau Diogelu'r Cyhoedd ar 11 Mai, 1 Mehefin, 6 Gorffennaf, 10 Awst, 7 Medi a 6 Hydref 2021 gan y Pwyllgor fel cofnod cywir.

### 4 : CAIS ADNEWYDDU TRWYDDED SEFYDLIAD RHYW – LOVECRAFT, 80 HEOL DDWYREINIOL Y BONT-FAEN, CAERDYDD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch cais i adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw mewn perthynas â Lovecraft, 80 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, ei bod yn ofynnol i safleoedd Sefydliad Rhyw adnewyddu eu trwyddedau bob blwyddyn. Derbyniwyd cais adnewyddu mewn perthynas â'r safle hwn ar 13 Awst 2021.

Fel rhan o'r broses cais i adnewyddu, mae cyfnod ymgynghori o 28 diwrnod pan fydd hysbysiad yn cael ei arddangos yn y safle a'i hysbysebu mewn papur newydd lleol. Yn ystod y cyfnod ymgynghori derbyniwyd 1 gwrthwynebiad. Mae'r gwrthwynebiad wedi'i atodi i'r adroddiad yn Atodiad A.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r gwrthwynebiad i adnewyddu'r drwydded sefydliad rhyw mewn perthynas â Lovecraft, 80 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Caerdydd.

### 5 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau bryd.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.20 am